

### **Beth yw data personol?**

Data personol yw unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig â chi unai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, er enghraifft gall fod eich enw, eich llun, eich rhif ffôn neu ble rydych yn byw.

### **Pam ydych chi angen fy nata?**

Rydym angen eich data personol fel y gallwn ddarparu ein gwasanaeth i chi. Mae gan y Cyngor 'dasg cyhoeddus' o redeg Gwasanaeth Ieuenctid Integredig ac ni allwn ddarparu'r gwasanaeth hwnnw a'ch cadw'n ddiogel heb gasglu eich data. Peidiwch â phoeni, ni fyddwn yn gofyn i chi ddarparu unrhyw wybodaeth oni bai ein bod angen. Byddwn yn sicrhau y bydd eich data'n cael ei gadw'n ddiogel a dim ond y rhai sydd angen gweld eich data fydd â mynediad i'r wybodaeth.

### **Am ba hyd y byddwch yn cadw fy nata?**

Byddwn yn cadw eich data tan eich pen-blwydd yn 25 oed ac yna byddwn yn ei ddinistrio yn ddiogel.

### **A fydd fy nata yn cael ei rannu gydag unrhyw bartïon eraill?**

Byddwn ond yn rhannu eich data gyda'r bobl a chwmnïau sy'n rhan o ddarparu'r gwasanaeth i chi. Os fydd angen i ni ddarparu eich gwybodaeth i unrhyw un arall, byddwn ond yn gwneud hynny yn ôl y gyfraith.

### **Alla i gael copi o'r wybodaeth yr ydych yn ei gadw amdanaf?**

Gallwch, mae gennych yr hawl i wybod pa wybodaeth a gedwir a gofyn am gopïau. Mae nifer o ffyrdd y gallwch wneud hyn, a'r ffordd hawddaf yw mynd i wefan y Cyngor a llenwi ffurflen.

(<http://www.lgpsregs.org/timelineregs/LGPS2008Regs/SI20100528/20071166.htm#reg4>)

Gallwch hefyd anfon e-bost at [dataprotection@flintshire.gov.uk](mailto:dataprotection@flintshire.gov.uk), ffonio 01352 702800 neu gallwch ysgrifennu at:

Tîm Diogelu Data - Llywodraethu  
Cyngor Sir y Fflint  
Neuadd y Sir  
Yr Wyddgrug  
Sir y Fflint  
CH7 6NR.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu data personol a'ch hawliau, edrychwch ar yr hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan -

<http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx>

**Lle gallaf gwyno os nad ydw i'n hapus?**

Os nad ydych yn hapus gyda'r ffordd mae eich data personol wedi cael ei drin, er enghraifft os ydych yn credu bod gwybodaeth amdanoch chi yn anghywir neu os ydych angen ei gywiro neu os ydych yn credu ei fod wedi cael ei gamddefnyddio, gallwch anfon e-bost at [dataprotection@flintshire.gov.uk](mailto:dataprotection@flintshire.gov.uk), ffonio 01352 702800 neu ysgrifennu at:

Tîm Diogelu Data - Llywodraethu

Cyngor Sir y Fflint

Neuadd y Sir

Yr Wyddgrug

Sir y Fflint

CH7 6NR.

Yn y DU, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cadw hawliau gwybodaeth ac mae gennych yr hawl i gwyno yn uniongyrchol iddynt os nad ydych yn hapus gyda'r ffordd mae'r Cyngor wedi trin eich data. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar eu gwefan <https://ico.org.uk/make-a-complaint/> neu drwy ffonio'r llinell gymorth ar 0303 123 1113